Dr Andrew Goodall

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru

11 Awst 2020

Annwyl Dr Goodall

**Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru)**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried y modd y mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu, a hynny yn dilyn cyhoeddi adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y Pwyllgor i fod i gwblhau ei waith yn ystod tymor haf 2020 ond o ganlyniad i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, nid oedd modd inni wneud hynny.

Rwy'n falch o glywed bod wyth allan o'r un ar ddeg o sefydliadau'r GIG wedi mantoli'r gyllideb yn 2019-20. Mae hyn, ochr yn ochr â'r ffaith bod chwech o'r deg bwrdd iechyd ac ymddiriedolaethau GIG sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2014 wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd fantoli statudol trwy weithredu o fewn eu cyllideb dros y cyfnod asesu tair blynedd rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2020, yn galonogol.

Da hefyd yw nodi'r cynnydd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'i wneud o ran datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo yn ogystal â diweddu blwyddyn ariannol 2019-20 ag arian dros i ben.

Fodd bynnag, siomedig oedd clywed nad oedd pedwar Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd fantoli dros y tair blynedd, gyda thri heb gael eu cynlluniau tair blynedd wedi'u cymeradwyo yn 2019/20. O ganlyniad, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn archwiliol yn seiliedig ar gyfrifon y cyrff hyn.

Mewn datganiad nododd yr Archwilydd Cyffredinol, er bod peth cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud mewn tri o'r Byrddau Iechyd hynny, fod y sefyllfa ym Mae Abertawe wedi dirywio. Nododd hefyd fod sawl bwrdd iechyd yn parhau i gofnodi diffygion blynyddol, er gwaethaf ambell gynnydd sylweddol yn eu cyllid.

Hoffwn godi mater y cymorth ariannol strategol gwerth cyfanswm o bron i £470 miliwn a ddarparwyd i bedwar bwrdd iechyd ers 2014. Deallaf i'r cyllid hwn gael ei ddarparu i gyrff

y GIG a fethodd fantoli eu cyllideb er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau ariannol i staff a chyflenwyr. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd na fyddai angen i'r £470 miliwn gael ei dalu'n ôl gan y byrddau iechyd hynny, fel y disgwyliwyd gynt. Cyhoeddodd hefyd, unwaith y bydd corff GIG yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 i fantoli ei gyllideb dros gyfnod o dair blynedd, ni fydd yn rhaid iddo ad-dalu diffygion hanesyddol. Er ein bod wedi cyffwrdd â rhai o'r materion hyn yn ein gwaith craffu blaenorol, byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ffurfiol ar rai meysydd:

1) O ble ddaeth y cyllid o £470 miliwn?
2) A oedd unrhyw amodau ynghlwm wrth y cyllid pan gafodd ei ddarparu, ac os felly a gafodd yr amodau hynny eu bodloni?
3) Sut mae'r cyllid ychwanegol a'r penderfyniad a wnaed ynghylch ad-dalu yn cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion Deddf Cyllid y GIG 2014?
4) Ai'r sefyllfa bellach yw na fydd cyrff y GIG sy'n parhau i orwario yn y dyfodol byth yn gorfod ad-dalu'r diffygion hynny?

Hwyrach y byddwch yn cofio bod cam gweithredu heb ei gymryd hefyd yn codi o'n cyfarfod â chi ar 9 Mawrth 2020 lle gwnaethoch gytuno i anfon nodyn yn darparu enghreifftiau o fentrau a phrosiectau sy'n helpu i reoli'r gwaith o adleoli staff asiantaeth ac fel rhan o gynllunio'r gweithlu yn ehangach. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cais hwn os gwelwch yn dda.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried ac yn trafod eich ymateb yn ofalus ac mae'n bosibl y bydd am gynnal sesiwn dystiolaeth, i drafod y materion hyn ymhellach a materion ehangach yn ymwneud â chyllid y GIG yn nhymor yr hydref. Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor hefyd yn aros yn eiddgar am gyhoeddiad cyfrifon cryno y GIG ar gyfer 2019-20.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.